PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 157 | Rhif 38 | Medi 19, 2024 | 50c.

## Cymanfa CWM, Durban

### Ailosod Cenhadaeth (*Revisioning Mission*)

Nid y lleiaf o'r llu bendithion ddaw inni'n sgil perthyn i deulu eglwysig fel CWM yw'r cyfle a'r fraint a gawn o ddod i adnabod ein cyd-aelodau a chael yn eu cwmni gipolwg ar fawredd ac ehangder y bywyd Cristnogol. Testun rhyfeddod yn wir, yw'r amrywiaethau diddorol a welir yn ein plith lle byddo dirnad ffydd a dehongli'r ysgrythurau'n bod.

**Ynyswyr y Môr Tawel**

Cafwyd digon o gyfle i brofi a gwerthfawrogi hyn yn ystod y gymanfa ac un o'r uchafbwyntiau i mi oedd y ddwy sesiwn a gynhaliwyd ar y thema Ail-osod Cenhadaeth, â hynny dan arweiniad dau gyfaill o ranbarth y Môr Tawel, Dr Cliff Bird o Ynysoedd y Solomon a Dr Luma Upolu Vaai o Samoa a Fiji, y ddau'n weinidogion ac ysgolheigion, y naill yn gyn bennaeth Coleg Diwinyddol y Môr Tawel a'r llall yn un o'i olynwyr. Rhyngddynt, cafwyd cipolwg adnewyddol ar rai o ddamhegion Iesu â hynny'n hwyluso wedyn yr ymgais i fynd i'r afael ag ailosod ein cenhadaeth a'u hadnewyddu.



*Dr Luma Upolu*



*Dr Cliff Bird*



**Diffyg cenhadaeth**

Rhagdybia'r dasg honno'r ffaith fod rhywbeth o'i le ar ein cenhadaeth, ac os mai felly y gwêl dau o Gristnogion y Pasifica bethau – lle mae canran sylweddol iawn o'r brodorion yn arddel y ffydd Gristnogol a'r eglwysi'n dal yn rhai cryfion – ni thâl hi i ninnau yma yng Nghymru, lle'r ymddengys cenhadaeth yr eglwys yn fregus iawn hyd at farw weithiau, fod yn esgeulus o'u neges.

**LMS**

Etifeddion ydynt, wrth gwrs, o genhadaeth gynnar y LMS (London Missionary Society) yn y Môr Tawel, yn dilyn glaniad y cenhadon cyntaf yn Tahiti yn 1795. Afraid nodi eu cariad at yr Efengyl a chynhesrwydd eu serch at y rhai hynny ar hyd dwy ganrif a ddygodd enw Iesu i'w clyw. Er hynny, nid cenhadaeth berffaith mohoni, ac mewn modd cytbwys a graslon y dadlennwyd ganddynt ei diffygion yng nghyd-destun bywyd brodorion yr Ynysoedd.

**Missio Dei – ei chamddeall**

Strwythurwyd y genhadaeth hon ar y cysyniad cenhadol a ddaethpwyd i'w adnabod yn 30au'r ganrif ddiwethaf fel Missio Dei, cenhadaeth Dduw, y Duw sy'n anfon, yr un y clywir adleisio'i alwad yng nghomisiwn mawr Iesu i'w ddisgyblion, i fynd 'a gwneud disgyblion o'r holl genhedloedd.'

Pwy felly, a fynnai ddadlau dilysrwydd cenhadaeth sydd â'i sail yn Nuw ac ym mywyd a gwaith ein Harglwydd Iesu? Neb call! Ac nid Bird a Vaai, yn sicr. Eu dadl hwythau oedd na ddilynwyd y Missio Dei i'w phendraw, yn gymaint ag i'r cenhadon fethu a gwreiddio'r ffydd yn y cyd-destun brodorol, ac o ganlyniad trodd y genhadaeth i gyfeiriad cwbl gyfeiliornus wrth ddod yn gyfrwng i godi pobl allan o'u byd, eu hachub o'r byd, gan ddiystyru i raddau pell iawn a dinistriol hefyd, hanes ac etifeddiaeth, iaith a diwylliant, amgylchfyd a daear pobloedd oedd wedi byw erioed mewn harmoni â'u byd, y môr yr awyr a'r tir a phopeth sydd ynddynt. *Dirt* oedd eu gair hwythau am hyn i gyd, 'cynefin' i ninnau, mae'n siŵr.

'Cafodd ein cynefin ei gythreuleiddio,' meddent, 'a rhaid oedd ein codi ohono. Ystyriwyd y cyfan oedd yn werthfawr a sanctaidd yn ein golwg yn adnodd i eraill ei reibio ac ymelwa arno.'

**Missio Dei – ei hadfer**

A chofio mai ymhlith y bobl hyn a'u tebyg yn y De y gorwedd canolbwynt

*parhad ar dudalen 2*

# Cymanfa CWM, Durban – *parhad*

Cristnogaeth y byd, bellach, mae'n galondid gwybod bod rhywrai fel Cliff Bird a Luma Upolu Vaai wrthi'n ddyfal yn llunio strwythur cenhadol fydd yn ein hachub ni o'r meddylfryd gorllewinol, ymerodraethol a dinistriol sy'n peri bod perygl, yn sgil cynhesu byd-eang, i rai o Ynysoedd y Môr Tawel, er enghraifft, cynefin ein brodyr a'n chwiorydd yn nheulu CWM, ddiflannu i eigion y môr. Cenhadaeth Duw yw sail a phatrwm pob cenhadaeth. Mae'n gwreiddio yn *dirt* y Pasifica, ac mae'n gwreiddio yn ein cynefin ninnau hefyd. Gwelir hynny'n glir ym mywyd Iesu o Nasareth, a phrin fod neb wedi mynegi'r gwirionedd hwn yn well nag Ieuan S. Jones, (un o garedigion teulu CWM, slawer dydd) mewn emyn sydd bellach, allan o gylchrediad, fel petai, sef rhif 56 yng *Nghaniedydd yr Ifanc*:

> Ganwyd Iesu yng ngwlad Israel,-
> Iddew ydoedd Mab y Dyn:
> Carai iaith a llên ei bobol,-
> Parchai wreiddiau Ef ei Hun.

Yn Israel heddiw, o bob man, ac yn wir yn holl wledydd y byd lle mae pobl wedi eu hamddifadu o gynefin sy'n ddaear ffrwythlon i feithrin bywyd yn ei holl gyflawnder, y mae yma neges i'w rhannu.


**Dyfrig Rees**




# Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang (CWM)

Y mae CWM wedi trefnu cyfres o weminarau er mwyn archwilio a chyflwyno eu harchifau. Cynhelir y gweminar cyntaf, fydd yn canolbwyntio ar yr archifau am Affrica, Y Caribî ac Ewrop, am 2yp ar 24 Medi. Maent yn awyddus iawn i ennyn diddordeb a gwahodd arweinyddion eglwysig, ysgolheigion a chanolfannau diwinyddol i ymuno â hwy.

Gellir cael rhagor o wybodaeth ar CWM Europe Region Facebook ynghŷd â dolen i'r ffurflen gofrestru. Trwy gofrestru fe gewch ddolen maes o law er mwyn ymuno ar Zoom.




# CEFNOGI CHWARAEON YNG NGHYMRU

Mudiad sy'n gwneud llawer o waith Cristnogol buddiol ac adeiladol yw Caplaniaeth Chwaraeon y Deyrnas Unedig (SCUK). Ers ei sefydlu ym 1991 y maent wedi gwasanaethu ystod eang o chwaraeon trwy ddarparu cymorth lles, gofal bugeiliol ac ysbrydol. Sefydlwyd yr elusen gan John Boyers tra roedd yn gweithio fel caplan yng nghlwb pêl-droed Watford. Treuliodd hefyd lawer o flynyddoedd fel caplan yn Manchester United.

Dywedodd Gerald Davies, cyn asgellwr tîm rygbi Cymru a Chadeirydd Undeb Rygbi Cymru:

> Hoffwn argymell manteision cael caplan chwaraeon mewn clwb rygbi. Mae hyn yn rhan bwysig o'r gêm fodern: i gael rhywun a fydd yn gwrando ar bryderon a phroblemau chwaraewr o bob oedran. Gall caplaniaid gefnogi anghenion amrywiol chwaraewyr, hyfforddwyr, teuluoedd ac unrhyw un arall sy'n gysylltiedig â'r clwb. Rwy'n teimlo'n gryf bod cefnogaeth o'r fath yn wirioneddol amhrisiadwy, yn enwedig i'r ifanc. Mae digon o gefnogaeth ar gael yn y maes datblygiad corfforol a datblygiad sgiliau, ond nid oes cymaint o sylw i faterion emosiynol ac iechyd meddwl yn gyffredinol. Mae angen cefnogaeth o'r fath i gynorthwyo pobl i feddu meddylfryd cadarnhaol, llawn gobaith er mwyn mwynhau rygbi gyda ffrindiau, ac edrych ymlaen at gael hwyl ar y maes rygbi. Mae'r caplan chwaraeon yn barod i wrando'n astud, ac ymateb gyda gwir gydymdeimlad i'r hyn a ddywedir wrthynt.

Mae'r caplaniaid yn meithrin perthynas â chwaraewyr, hyfforddwyr a'r holl staff sy'n gwirfoddoli mewn clybiau. Mae caplaniaeth yn cydnabod yr angen sydd ar bobl am galon a meddwl iach, cryfder

*parhad ar dudalen 6*



Yr Adran Gydenwadol

MEDI 19 2024 RHIF 186

# GWOBRWYO ENILLWYR MEDALAU GEE 2024

Eleni cyflwynir deg o Fedalau Gee i'r rhai a enwir isod. Diolchwn iddynt am eu ffyddlondeb a'u gweithgarwch dros achos Iesu Grist:

**Nerys Haf Biddulph – Rehoboth, Prestatyn**
**Angela Skym – Capel Newydd, Llanddarog**
**Eleri Price – Jerusalem, Cerigydrudion**
**Dorothy Jones – Jerusalem, Cerigydrudion**
**Nesta Richards – Jerusalem, Cerigydrudion**
**Enid Jones – Capel Pencae, Llanarth**
**Catrin Bell – Tabernacl, Caerdydd**
**Eirlys Pritchard Jones – Tabernacl, Caerdydd**
**Bill Davies – Tabernacl, Caerdydd**
**Ruth Davies – Tabernacl, Caerdydd**



## Cyflwyno Medalau Gee i dair o ffyddloniaid yr Ysgol Sul yng Ngherrigydrudion


Nos Sul, 8 Medi, daeth cynulliad da iawn at ei gilydd, yn aelodau, teulu a ffrindiau, a hynny i oedfa arbennig er mwyn cyflwyno medalau i Dorothy Jones, Eleri Price a Nesta Richards. Arweiniwyd yr oedfa gan Aled Davies o'r Cyngor Ysgolion Sul, cyn symud ymlaen i gyflwyno'r medalau ar ran y teulu Gee.

Braint oedd cyfarfod tair a wnaeth gyfraniad nodedig dros achos Iesu Grist, gan gyflawni gwaith fel arolygwyr hefyd yn eu tro. Wedi'r oedfa, fe gafodd pawb gyfle i fynd i'r neuadd yn y pentref, lle roedd 'na luniaeth wedi ei baratoi gan chwiorydd y capel. Wrth i'r tair gael eu cyflwyno, rhannwyd y canlynol amdanynt:

Mae **Dorothy Jones** wedi mwynhau mynychu'r ysgol Sul er pan oedd yn 3 oed yng Nghapel y Parc, ger y Bala, ac yna yng Ngherrigydrudion er 1972. Bu'n arolygwr ysgol Sul dair gwaith ac yn athrawes plant oedran 8–12 yn yr wythdegau. Mae hi'n gefnogol iawn i holl weithgareddau'r capel – y Gymdeithas a'r boreau coffi, ac mae hefyd yn brysur iawn yn paratoi at y Nadolig bob blwyddyn. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac yn ei swydd fel yr arolygwr presennol, trefnodd wasanaethau llawn amrywiaeth at achlysuron arbennig – Diolchgarwch, Nadolig, Gŵyl Ddewi a'r Pasg ar gyfer plant ac oedolion y capel.

Cafodd **Eleri Price** ei geni ym Mhen-y-bont, Llangwm. Bu'n aelod yng Nghapel y Groes, Llangwm, lle bu'n ysgrifennydd yr ysgol Sul. Mae ei rhieni a'i nain hefyd wedi derbyn Medal Gee. Priododd â Gwynfor yn 1968 a dod i fyw i Fronheulog, Cerrigydrudion, ac ymaelodi yng Nghapel Jerusalem. Bu'n arolygwr yr ysgol Sul yno ddwywaith ac yn ysgrifennydd y Chwiorydd ers bron i 30 mlynedd. Hi yw trysorydd presennol y Gymdeithas ers naw mlynedd ac mae hefyd yn gyn-ysgrifennydd.

Cafodd **Nesta Richards** ei geni yn Hafoty Isaf, Llanfihangel Glyn Myfyr, a mynychodd yr ysgol Sul yng Nghapel Maes yr Odyn, Llanfihangel, yn blentyn. Priododd yn 1965 a symud i fyw i Bentrellyncymer ac ymuno â chapel yr Annibynwyr, Pentrellyncymer, hyd nes i'r capel hwnnw gau. Ymunodd wedyn â Chapel Jerusalem, Cerrigydrudion. Bu'n gwasanaethu fel arolygwr, athrawes ar y plant bach ac yn cyfeilio yn yr ysgol Sul a'r oedfaon.



# Ail-lansio apêl Gaza

**Wrth i'r rhyfel yn Gaza agosáu at y garreg filltir erchyll o flwyddyn ers dechrau'r gwrthdaro diweddaraf, mae Cymorth Cristnogol yn ail-lansio ei apêl frys er mwyn helpu'r rheiny sydd wedi eu heffeithio.**

Mae cefnogwyr hael yr asiantaeth ddatblygu ryngwladol wedi codi dros £2 miliwn i helpu pobl sy'n gaeth i'r sefyllfa ledled Israel a Thiriogaethau Meddianedig Palesteina.

Ond mae angen mwy er mwyn parhau i ddod â gobaith a rhoi cefnogaeth i'r miliynau o bobl sy'n ei chael hi'n anodd goroesi, a gweddïo dros heddwch. Mae Cymorth Cristnogol yn gofyn i'w cefnogwyr roi, gweithredu a gweddïo – **drwy ail-lansio'r apêl frys, a chynnal gwylnos ar-lein a chyfarfodydd gweddi misol.**

Esboniodd Mari McNeill, pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru: "Mae ein cefnogwyr wedi bod yn anhygoel gan godi dros £2.2 miliwn hyd yma. Mae hyn wedi ein helpu i gyrraedd dros 800,000 o bobl yn Gaza trwy ein partneriaid lleol i wneud y canlynol:

- rhoi arian i deuluoedd sydd wedi eu dadleoli;
- rhoi cymorth meddygol mewn clinig iechyd teithiol;
- darparu pethau angenrheidiol sylfaenol fel bwyd, dŵr, blancedi, matresi a lloches, gan gynnwys sefydlu gwersyll hygyrch ar gyfer pobl ag anableddau sydd wedi eu dadleoli'n fewnol.

"Mae Cymorth Cristnogol hefyd wedi bod yn gweithio â mudiad cymdeithas sifil Israelaidd yn Tel Aviv, yn eu cefnogi i ddarparu llefydd diogel i gyfarfod yn dilyn trawma 7 Hydref y llynedd.

"Ond mae'r angen yn fawr ac mae mwy y gallwn ni ei wneud, a dyma pam rydym yn ail-lansio ein hapêl Gaza. Gyda chefnogaeth a gweddïau ein cefnogwyr, fe allai Cymorth Cristnogol gyrraedd mwy o bobl â'r cymorth sydd eu hangen arnynt, ac fe fydd yn gwneud hynny."

Esboniodd William Bell, Pennaeth Polisi ac Eiriolaeth Cymorth Cristnogol y Dwyrain Canol, mai'r unig ffordd i weithio tuag at heddwch cynaliadwy a helpu pobl i ailadeiladu eu bywydau yw trwy gadoediad parhaol, er bod cymorth eisoes yn cyrraedd pobl.

Ychwanegodd: "Mae Cymorth Cristnogol yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i wneud popeth o fewn ei gallu i hyrwyddo diwedd ar feddiannu Gaza a'r Llain Orllewinol.

"Dylai arweinwyr gwledydd dylanwadol y byd alw am gadoediad parhaol a fyddai'n dod i rym ar unwaith. Dyma'r unig wir opsiwn



sydd gennym er mwyn ceisio osgoi marwolaethau rhagor o sifiliaid ac ychwanegu at y trychineb dyngarol hwn."

Mae Cymorth Cristnogol yn galw ar ei gefnogwyr i roi, gweithredu a gweddïo mewn undod â'u cymdogion byd-eang.

- **Rhowch**:
  - **At** Apêl Gaza drwy gynnal casgliad, archebu amlenni neu yn uniongyrchol drwy ein gwefan. Gall £5 ddarparu blancedi cynnes i deulu sydd wedi ei ddadleoli a gall £20 fwydo teulu am wythnos gan ddarparu parsel bwyd llawn hanfodion fel olew a chaws.
- **Gweithredwch:**
  - Drwy arwyddo **deiseb Cymorth Cristnogol** i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, a **chysylltu â'ch Aelod Seneddol** i'w (h)annog i gefnogi cadoediad.
  - Drwy ymuno â gweminar a gweithdy **A Just Peace: webinar and workshop,** ar 16 ac 17 Medi, o 7.30yh, ledled y Deyrnas Unedig. Nod y cynllun hwn yw ateb y cwestiynau y gallai pobl fod yn teimlo'n bryderus amdanynt ynghylch heddwch yn Israel a Phalesteina. **I ymuno â'r gweminar, ewch i:** https://www.christianaid.org.uk/get-involved/campaigns/just-peace-webinar-and-workshop.
- **Gweddïwch:**
  - Mae Cristnogion ledled y Deyrnas Unedig wedi bod yn cymryd rhan mewn galwadau Zoom rheolaidd sy'n cael eu cynnal ar y 24ain o bob mis. Mae cyfarfod nesaf **Prayers for Peace ddydd Mawrth, 24 Medi 24, 7–8yh,** a bydd cyfle i glywed gan Nadia Giol ac Anat Asia sy'n trefnu grwpiau i Israeliaid Iddewig a Phalesteinaidd yng Ngalilea, lle maent yn byw, ac ar-lein i bawb ledled y byd. **I ymuno, ewch i:** Prayers for Peace in the Middle East - Christian Aid.
  - **Ymunwch â gwylnos Cymorth Cristnogol** am 8yb ddydd Llun, 7 Hydref. Cofrestrwch drwy'r wefan.

*Nodwch: bydd pob digwyddiad yn Saesneg.*

---

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 22 Medi am 7.30yh – Waldo**

Bydd Nia Roberts yn ymweld â sir Benfro i ddathlu cant ac ugain o flynyddoedd ers geni'r llenor, yr heddychwr a'r Crynwr Waldo Williams. Ymhlith y gwesteion bydd Eluned Richards, nith Waldo, a'r cyn-archdderwydd John Gwilym Jones. Cawn berfformiad arbennig gan Gôr Crymych a daw'r canu mawl o Gapel Bethel, Mynachlog-ddu.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 22 Medi, am 7:30yb a 4:30yp**

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Arfon Haines Davies


***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 22 Medi, am 12:00yp**

Oedfa dan ofal Heulwen Evans, Castellnewydd Emlyn

# Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr

gan Gareth Lloyd Jones (Cyhoeddiadau'r Gair)

## Rhagarweiniad i Lyfr Ruth







**Cyfres o astudiaethau gan y Parch. W. Bryn Williams ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* gan Gareth Lloyd Jones**

**'Teulu'n gadael cartref i ddianc oddi wrth newyn!' (Ruth 1:1–5)**

Wrth osod teitl cyfoes i'r pum adnod gyntaf, gellir yn wir ymdeimlo â thrasiedi'r teulu. Yma cawn banorama o'r sefyllfa: bod newyn ym Methlehem. Ia, Bethlehem, yn eironig, â'r enw'n golygu, 'tŷ bara'.

Mae gŵr a gwraig a'u dau fab yn dianc rhag newyn Bethlehem ac yn dewis mynd i fyw *dros dro* yng ngwlad Moab. Mynd yno fel ffoaduriaid newyn, a honno'n daith o ryw 50 milltir (80km). I'r teulu o bedwar roedd cyrraedd Moab yn sialens beryglus ynddi'i hun. Roedd yn rhaid teithio drwy fwlch anghyfannedd Jericho, drwy anialwch Jwdea, ac wedyn ar hyd ymyl y Môr Marw cyn croesi'r Iorddonen ac i lawr i'r de i wlad Moab. Doedd dim byd yn hawdd yn y siwrne, ond hefyd, i Iddew, roedd gwlad Moab i fod yn lle i gadw'n glir ohono! (Edrychwch ar fap sydd o fewn y rhan fwyaf o Feiblau er mwyn cael cipolwg o'r daith.)

Roedden nhw'n mynd yno 'i fyw dros dro', ac felly ddim yn bwriadu *aros yn hir*. Mae'r gair Hebraeg yma, sef *guwr*, yn awgrymu cyfnod byr. Doedd dim bwriad, yn ôl y testun, i Elimelech a'i deulu aros ym Moab, jest mynd yno *dros dro*, i ddianc oddi wrth y newyn. Ond erbyn diwedd adnod 2 mae'r teulu yn dewis *aros yno*!

Mewn ychydig adnodau rydyn ni'n clywed bod Elimelech yn marw, bod y ddau fab yn priodi merched o Foab, a'r meibion eu hunain wedyn, ymhen deng mlynedd, yn marw.

Diddorol yma ydy ystyr eu henwau: Elimelech – 'Duw yn frenin'; Mahlon – 'gwael neu sâl', a Chilion – 'gwanllyd'. Efallai fod enwau'r meibion yn egluro pam y bu'r ddau farw'n ifanc ac yn ddi-blant. Down at enwau'r merched yr wythnos nesaf. Ond beth am enw'r tad? Oedd Elimelech wedi caniatáu i Dduw fod yn *frenin arno* wrth iddo arwain ei deulu i le nad oedd Duw eisiau iddyn nhw fynd? Yr ateb ydy 'Na', am mai lle i gadw'n glir ohono oedd Moab.

Trasiedi gadael cartref i'r teulu yma o Fethlehem ydy na wnaeth pethau wella o gwbl iddyn nhw ym Moab, ond yn hytrach gwaethygu'n ddifrifol. Doedd Moab ddim yn lle i wella!

Weithiau rydyn ni'n meddwl y medrwn ni symud i ffwrdd oddi wrth ein problemau. Ond, yn amlach na pheidio, mae'r problemau'n dod hefo ni! Hynny yw, does dim gwahaniaeth lle rydyn ni'n mynd, rydyn ni'n dod â ni ein hunain hefo ni! Felly, os nad yw'r lle newydd yn delio â'n problemau, yr un fydd y canlyniadau neu, yn hanes y teulu yma, fe fyddant yn llawer gwaeth.

I gloi am heddiw, erbyn diwedd adnod 5, mae gennym dair gwraig weddw a dim plant. Yn yr Hen Fyd roedd bod yn weddw ac yn ddi-blant yn gadael rhywun mewn sefyllfa fregus, a hefyd un beryglus. Heb neb i'w cynnal, roedden y tair felly'n gorfod dibynnu ar haelioni dieithriaid. Doedd gan Naomi ddim teulu ym Moab, na neb arall i'w helpu. Roedd ei sefyllfa'n wirioneddol enbyd.

**Cwestiynau i'w trafod**:

1. Sut mae ein penderfyniadau'n effeithio ar weddill ein teulu?
2. Dychmygwch sut yr aeth y 'dros dro' yn ddeng mlynedd?
3. Ble mae 'Moab' heddiw – ac nid yn ddaearyddol?




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Teyrnged
## Y Parchedig T. J. Irfon Evans (1926–2024)

Yn dilyn cystudd hir a ddioddefodd yn ddewr a di-gŵyn bu farw'r Parchedig Irfon Evans ar 5 Awst, 2024. Ganed ef yn Nryslwyn, dyffryn Tywi. Roedd yn un o ddeuddeg o blant Martin a Catherine Evans. Ymhyfrydai bod y Parchedig Jeremy Jones a fu'n weinidog eglwys Ebeneser, Tonypandy mewn cyfnod o adfywiad ysbrydol, yn frawd i'w fam-gu.

### Llanelli

Symudodd y teulu i Lanelli pan oedd Irfon yn fychan iawn ac yno magwyd ef ar aelwyd Gristnogol. Roedd ei fam yn aelod gyda'r Bedyddwyr yn eglwys Moriah ac yno yn ei arddegau cynnar dderbyniodd fedydd trochiad ar gyffes bersonol o'i ffydd. Byddai hefyd yn addoli gyda'i dad yng Nghapel Als ac yno ddewisodd ymaelodi am fod yr Annibynwyr yn arfer Cymun Agored gyda chroeso i bawb sy'n caru'r Arglwydd Iesu Grist wrth ei fwrdd ef.

### Galwad

Glöwr oedd ei dad a phan oedd Irfon yn bedair ar ddeg mlwydd oed lladdwyd ei dad mewn cwymp o dan ddaear. O ganlyniad, am mai ef oedd y mab hynaf, bu'n rhaid iddo roi'r gorau i'w addysg er mwyn ennill cyflog i gynnal y teulu. Roedd yn wrthwynebydd cydwybodol yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Ei ddymuniad oedd gwasanaethu gyda'r Groes Goch ond ni chafodd gyfle a chafodd ei yrru i wasanaethu ar ffermydd yng nghylch Llanwrda. Yno wynebodd sen a dirmyg gan rai ond cafodd groeso yn eglwys Tabor, Llanwrda. Erbyn hyn roedd yn ymdeimlo â'r alwad i'r weinidogaeth. Roedd wedi ei alw i'r gwaith gan ei Arglwydd a chafodd pob cefnogaeth gan y Parchedig G. Meredydd Evans, gweinidog Tabor ynghyd â'r aelodau.

Wedi derbyn hyfforddiant yn y Coleg Coffa yn Aberhonddu derbyniodd alwad gan eglwysi Capel Isaac, Penyrheol a Saron, Llanarthne a'i ordeinio yn weinidog i'r Arglwydd Iesu Grist yn haf 1952. Yn hwyrach y flwyddyn honno priododd Mair oedd yn enedigol o Lansadwrn ond wedi ei magu yn Aberystwyth. Cydnabu ei ddyled fawr i Mair, ei briod hawddgar a hwylusodd y ffordd iddo gyflawni ei waith fel gweinidog mor effeithiol. Ergyd drom iddo chwe blynedd ar hugain yn ôl oedd marwolaeth ei annwyl Mair yn dilyn brwydr ddewr yn erbyn afiechyd digon garw.

### Ffydd a phrofedigaeth

Roedd Irfon yn englynwr medrus ac ar y Nadolig, yn dilyn marwolaeth Mair, lluniodd englyn a'i ysgrifennu ar bob un o'i gardiau Nadolig. Englyn yw sy'n tystio i'r ymgeledd brofodd yn ei Waredwr yn ei hiraeth a'i ddagrau.

Fe ddaw hwyl yr Ŵyl yn rhad – ond i ni  
Wneud yn iawn â'n Ceidwad,  
Drwyddo Ef y daw rhyddhad  
O afael pob rhyw brofiad.

Symudodd Irfon a Mair gyda Wyn a Deian, eu meibion bychan, i eglwys Mynydd Seion, Ponciau ym 1955. Yno ganed Huw. Ergyd drom arall i Irfon oedd marwolaeth Huw ar drothwy Nadolig 2021. Roedd Irfon a Huw'n rhannu'r un aelwyd a mawr oedd gofal Huw am ei dad. Parhaodd Irfon i dystio i gryfder ei ffydd wrth gyfeirio at y gwirioneddau mawr sy'n Salm 103, ei hoff salm, sy'n pwysleisio trugaredd a chariad Duw ynghyd â'i ffyddlondeb i'r rhai sy'n ymddiried ynddo.

**Andrew Lenny**

(Bydd ail ran y deyrnged hon yn y rhifyn nesaf o'r *Tyst*.)



*Y Parchg Irfon Evans yn derbyn aelodau newydd i eglwys Bethel. Allan o Papur Pawb Ebrill 1987*

## CEFNOGI CHWARAEON YNG NGHYMRU – *parhad*

corfforol a'r ymwybyddiaeth dactegol er mwyn iddynt wireddu eu potensial a chyflawni eu breuddwydion o fewn i'w maes chwaraeon arbennig.

### Amcanion

Bwriad Caplaniaeth Chwaraeon y DU (SCUK) yw, hyfforddi, cefnogi ac annog caplaniaid er budd y gymuned chwaraeon gyfan; maent ar gyfer pobl o ffydd a'r rhai sydd heb ffydd. Cydnabyddir bod angen gofal bugeiliol ac ysbrydol o ansawdd uchel. Yn gyffredinol mae hyn yn golygu ymweld â chyfleusterau hyfforddi, stadia, a swyddfeydd yn wythnosol, a bod ar gael i wrando a dod â chefnogaeth i bawb.

### Darpariaeth

Ar hyn o bryd (Ionawr 2024) mae 100 o swyddogaethau caplaniaeth ar draws Cymru (mae hyn ar gynnydd), yn cefnogi clybiau chwaraeon proffesiynol, lled-broffesiynol ac amatur. Darperir hefyd gefnogaeth caplaniaeth mewn digwyddiadau chwaraeon mawr yng Nghymru fel Cwpan Rygbi'r Byd dan 20, 7s rygbi Myfyrwyr y Byd, Gemau IPC Ewrop i Bawb ac yn yr 21ain Gŵyl Rygbi'r Hasbins, Pencampwriaethau Rhwyfo Môr y Byd. Mae rhai o'n caplaniaid wedi gwasanaethu yn y Gemau Olympaidd, y Byd a'r Gymanwlad. Maent yn cefnogi'n rheolaidd ddigwyddiadau Run4Wales fel y Cardiff Half, yn ogystal â'r un yn Abertawe a'r Ironmans Dinbych-y-pysgod. Mae'r caplaniaid yn gweithio ar sail wirfoddol ac yn rhoi 4 i 6 awr yr wythnos i gefnogi eu clybiau.

### Hyfforddiant

Mae Caplaniaeth Chwaraeon DU wedi gweithio i sicrhau bod lefel o gysondeb ar draws ein caplaniaethau. I'r perwyl hwn, bydd pob caplan yn mynychu diwrnod hyfforddiant sylfaenol sy'n cynnwys cyflwyniad manwl i'r hyn sy'n effeithio ar bobl ym myd chwaraeon a all fod yn unigryw, ynghyd â materion fel diogelu ac wrth gwrs ein hethos ymarfer. Ar hyn o bryd maent yn datblygu caplaniaeth chwaraeon trwy Gymru benbaladr gan gysylltu â chlybiau ac eglwysi lleol er mwyn dod o hyd i gaplaniaid, eu hyfforddi, eu rhyddhau a'u cefnogi ar draws amrywiaeth o chwaraeon. Mae caplaniaid yno i gefnogi'r clwb cyfan ac felly mae gan rai clybiau fwy nag un caplan. Am ragor o fanylion neu er mwyn gwirfoddoli cysylltwch gyda wales@sportscaplancy.org.uk neu ewch i'r wefan www.sportscaplancy.org.uk/sport

# Barn Annibynnol

## Sŵn y Byd

Mae'n rhyfedd, ond mae'r ffordd mae rota cyfranwyr Barn Annibynnol wedi ei lunio yn golygu fy mod fel petawn yn ysgrifennu ar gyfer *Y Tyst* yn dilyn cyfnod o wyliau bob tro. Mae'n gallu bod yn anodd dod yn 'ôl i drefn' ar ôl cyfnod o wyliau, dydi? Mae'r ymennydd fel petai'n dal i feddwl mai'r pethau pwysicaf sydd angen sylw ydy ar ba *sun lounger* ga i eistedd heddiw neu ba dŷ bwyta ydw i am fwyta ynddo heno? A phan fyddwch chi'n cael cyfnod i ffwrdd o'r gwaith jest cyn i'r tymor newydd ddechrau, mae'n anodd canolbwyntio ar dymor newydd yr hydref pan mae gwres yr haul ar eich wyneb yn dal yn atgof agos. (Do, mi fuon ni dramor er mwyn cael gweld yr haul.)

### Addoliad lleol

Fel dwi wedi sôn yn y golofn hon o'r blaen, mi fyddai wastad yn ceisio mynd i addoli pan fydda i i ffwrdd ac fel arfer mi fyddai'n ceisio mynd i eglwys ym mhrif draddodiad y wlad dwi ynddi. Dwi'n cofio mynd i Corfu efo'r genod ar ôl gorffen coleg ddiwedd y 90au a chael profiad mor wahanol i Sul arferol mewn eglwys fach uniongred wrth ymyl lle roeddem yn aros. Roedd yn brofiad gwirioneddol arbennig.

### Sacré Cœur

Yn Montmatre, Paris, y treulion ni benwythnos olaf ein gwyliau eleni – wrth i ni yrru yn ôl o dde Ffrainc (dyna ble roedd yr haul!) i Calais. Mae Montmatre yn enwog am eglwys y Sacré Cœur. Er i mi fod mewn gwasanaeth yno o'r blaen, y tro hwn cefais brofiad o fynd i offeren am 10 o'r gloch nos. Roedd gadael strydoedd prysur Montmatre oedd yn fwrlwm o sŵn a phrysurdeb a chamu mewn i awyrgylch addolgar yr eglwys yn arbennig iawn.



### Sŵn y byd

Ond bob hyn a hyn, byddai sŵn y stryd yn llifo fewn i'r eglwys ac yn cymysgu efo mawl y gynulleidfa. Ar y cychwyn roeddwn yn teimlo yn anniddig fod sŵn 'tu allan' nos Sul yn tarfu ar yr addoliad 'tu fewn' i'r eglwys. Ond wrth i'r gwasanaeth fynd yn ei flaen, cawn fy hun yn sylwi fod sŵn tu allan a thu fewn waliau'r eglwys yn llifo i'w gilydd yn gyfforddus. Doedd sŵn y stryd ddim yn amharu ar fy mhrofiad o addoli. Oedd, roedd yno, yn sŵn cefndir, ond roedd yr hyn oedd yn digwydd tu fewn i'r Eglwys a'r profiad o gyd-addoli yno yn llawer pwysicach i mi yn ystod yr awr yr oeddwn yno. Roedd y profiad yn fy atgoffa y gallwn fel Cristnogion, ar adegau, gau ein hunain i ffwrdd o'r byd tu allan, neu deimlo fod 'sŵn y byd' yn gallu ein llethu.

### Tystion i'r Arglwydd

Mae'n wir y gall 'y byd' ein herio a gwneud i ni deimlo yn anniddig ar adegau a gall fod yn fwy cyfforddus i ni adael y byd 'tu allan' i'n haddoliad a'n bywyd eglwysig. Ond o wneud hynny, sut allwn ni gyflawni ein cyfrifoldeb o fod yn ddilynwyr i Iesu Grist yn ein cymunedau a'n byd heddiw? O ddilyn esiampl Iesu, rhaid mynd allan 'i'r byd'. Rhaid sicrhau gofod yn ein bywydau i Dduw ac i feithrin ein perthynas ag o mewn addoliad, wrth gwrs, ond rhaid cofio mai tystion ydan ni i'n Harglwydd Iesu Grist. Ac er mwyn tystio, rhaid i bobl ein gweld a'n clywed! Felly ar ddechrau tymor newydd, gadewch i ni ymrwymo o'r newydd, er nad ydym 'o'r byd' i fod yn y byd a'n cymunedau dros Grist heddiw.

**Mererid Mair**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)




**Diwrnod i Arweinwyr Addoliad, Pregethwyr Cynorthwyol, a darpar Bregethwyr Cynorthwyol**

Ydych chi'n Arweinydd Addoliad, yn Bregethwr Cynorthwyol, neu yn ystyried cychwyn arwain addoliad, boed hynny yn eich eglwys leol, neu mewn eglwysi eraill?

Os ydych, carem eich gwahodd i ddiwrnod arbennig wedi ei drefnu ar eich cyfer chi.

**Dydd Gwener, 20 Medi 2024**

**10:00 - 3:30 o'r gloch yn Llety'r Parc, Aberystwyth**

Yn ystod y diwrnod, bydd rhai o'r unigolion sydd wedi dilyn y modiwl 'Addoli a Phregethu' yn ddiweddar yn cyflwyno myfyrdod.

Hefyd, bydd cyfle inni ymuno mewn dwy sesiwn arbennig, sef:

'Y Celfyddydau mewn Addoliad - Parchg Owain Llyr Evans
'Addoliad Pob Oed' - Parchg Beti-Wyn James

I gofrestru, cysylltwch â'r Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau: carwyn@annibynwyr.cymru

**Croeso cynnes i bawb**



*Trefnir y diwrnod dan nawdd Cynllun Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg*

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
**Y Parchg Ddr Alun Tudur**
**39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,**
**Caerdydd, CF23 9BS**
***Ffôn:* 02920 490582**
***E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru**

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc**
**Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe**
**ABERTAWE SA7 0AJ**
***Ffôn:* 01792 795888**
***E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru**

*Dalier Sylw!*

**Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.**

# Naid ffydd ac ymddiried yn Nuw

Ar silff ffenestr yn uchel y tu allan i floc o fflatiau yng nghanol bae Caerdydd, cydiodd merch ifanc y wal garreg gan grynu mewn ofn am ei bywyd. Cafodd Cerys ei hun yn gaeth i'r dibyn tu allan i ffenestr ei fflat oedd erbyn hyn wedi'i feddiannu gan fflamau tân oedd yn lledaenu'n gyflym. Tyfodd y fflamau yn ffyrnig, a phesychodd cymylau du o fwg o'r ystafell, gan ei gwneud hi'n amhosibl iddi weld ffordd yn ôl i mewn. Dechreuodd banico, a'i chalon yn curo fel peiriant dyrnu. Yn union pan oedd hi'n meddwl bod pob gobaith wedi'i golli, clywodd lais yn galw arni oddi isod.

'Neidia i 'mreichiau!' gwaeddodd un o'r gweithiwr ar y lawnt islaw. Roedd ei freichiau wedi'u hymestyn, yn barod i'w dal. Roedd meddwl Cerys yn llawn amheuaeth. A allai wir ei dal hi? A oedd e'n ddigon cryf i'w hachub rhag cwymp mor beryglus? Roedd y ddaear yn ymddangos mor bell i ffwrdd, ac roedd ofn cwympo yn llethol. Roedd y tafodau tân erbyn hyn yn llyfu'r wal tu allan i'r ffenestr. Roedd dim dewis bellach.

## Gwirionedd ysbrydol

Mae'r senario hwn yn adlewyrchu gwirionedd ysbrydol dyfnach am ein perthynas â Duw. Yn union fel y galwodd y gweithiwr ar Cerys, mae Duw yn galw ar bob un ohonom, gan ofyn inni ymddiried ynddo. Y cwestiwn yn aml yw, a oes gennym ni'r ffydd i neidio i'w freichiau?

Mae ffydd, yn ei hanfod, yn ymwneud ag ymddiriedaeth. Mae'n ymwneud â chredu bod Duw yn fwy na galluog i'n dal ni pan fyddwn ni'n cwympo. Mae'r Beibl yn llawn hanesion am unigolion a gymerodd lamau o ffydd, gan ymddiried yng nghryfder a gallu Duw i'w hachub. Cymerwch, er enghraifft, stori Pedr yn cerdded ar ddŵr. Pan alwodd Iesu arno i gamu o'r cwch, roedd yn rhaid i Pedr ymddiried na fyddai Iesu'n gadael iddo foddi. I ddechrau, cerddodd Pedr ar y dŵr, ond pan ddechreuodd amau, fe ddechreuodd suddo. Estynnodd Iesu allan a'i ddal, gan ddangos bod ffydd yn gofyn inni gadw ein llygaid ar Grist, gan ymddiried yn Ei allu a'i gariad.

## Breichiau agored

Yn union fel yr oedd breichiau cryfion y gweithiwr yn barod i ddal Cerys, mae breichiau Duw bob amser yn agored i ni. Y mae nid yn unig yn fodlon, ond hefyd yn ddigon abl, i'n hachub, ni waeth pa mor anobeithiol y gallai ein sefyllfa ymddangos. Ein rhan ni yw cael yr hyder i neidio, i gymryd y naid honno o ffydd.

Mae diwedd hapus i stori Cerys. Cymerodd anadl ddofn, ymddiriedodd yn y gweithiwr, a neidiodd. Daliodd ei freichiau cryfion hi'n ddiogel, gan ei hachub rhag y fflamau. Yn yr un modd, pan fyddwn yn gosod ein bywydau yn nwylo Duw, gan ymddiried ynddo'n llwyr, fe gawn fod Ei ras a'i nerth yn fwy na digon. Ef yw ein noddfa a'n cryfder, yn gymorth tragwyddol ar adegau o gyfyngder (Salm 46:1).

Felly, wrth ichi lywio heriau bywyd, cofiwch fod Duw yn galw arnoch chi. Mae'n fwy na galluog i'ch achub chi a'ch cario chi trwy unrhyw dân. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw ymddiried ynddo a chymryd y naid honno mewn ffydd.

**Gwyn Elfyn**

(Erthygl oddi ar wefan Seion, Drefach, sef capelseion.uk)






*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*